ARGYFWNG COVID 19 – DIWEDDARIAD LLYWODRAETHIANT
(25 Mawrth 2020)

- Yn dilyn y ddau nodyn esboniadol a ddosbarthwyd yn ystod yr wythnos yn cychwyn ar 16 Mawrth, 2020, rwyf mewn sefyllfa erbyn hyn i'ch diweddaru ar gynllun Llywodraeth Cymru i gyflwyno amrywiad dros dro i gyfraith llywodraethiant fydd yn galluogi eich Cyngor i weithredu'n gyfreithlon a diogel yn ystod cyfnod yr argyfwng cenedlaethol presennol.

- Rwyf mewn deialog reolaidd gydag uwch swyddogion yn Llywodraeth Cymru am beth fydd yr amrywiad dros dro yn ei gynnwys ac rwyf yn rhoi gwybod iddynt am y materion hynny a wynebir gan Gynghorau wrth iddynt geisio rheoli eu gwaith yn ystod y cyfnod presennol.

- Dywedwyd wrthyf y bydd y Bil Coronafeirws sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd yn Senedd y DG, unwaith y caiff ei basio, yn cynnig mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol i gyflawni eu gwaith mewn modd cyfreithlon a diogel. Mae'n cynnwys darpariaethau fydd yn galluogi Llywodraeth Cymru i wneud deddfwriaeth eilaidd i ddiwygio gofynion presennol o ran cyfarfodydd a thrafodion, gan gynnwys cael gwared â'r angen i gynnal y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai a galluogi presenoldeb o bell tra'n cynnal egwyddorion gweithredu mewn ffordd agored a bod yn atebol i'r cyhoedd. Byddai holl gyfarfodydd cynghorau cymuned a thref o fewn cwmpas y ddeddfwriaeth h.y. cyfarfodydd Cyngor a Phwyllgorau.

- Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar hyn o bryd ar ddatblygu'r rheoliadau fydd yn golygu, unwaith y caiff y Bil Coronafeirws gydsyniad brenhinol, na fydd yn rhy hir cyn i'r rheoliadau a'r canllawiau ategol gael eu cyhoeddi.

- Gallai hynny olygu fod Cynghorau yn tybio pa gamau ddylent eu cymryd yn y cyfnod cyn y cyhoeddir y rheoliadau a'r canllawiau. Er mwyn cynorthwyo Cynghorau yn ystod y cyfnod hwnnw, gallaf ddweud wrthych fod y canllawiau a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Genedlaethol Cynghorau Lleol, y gweithiwn yn agos â nhw, fel a ganlyn: -

  '*Rydym yn disgwyl canllawiau gan y llywodraeth ar gynnal cyfarfodydd o bell. Yn y cyfamser, os yw cynghorau lleol yn penderfynu peidio cynnal cyfarfodydd a gwneud penderfyniadau trwy e-bost neu ddulliau o bell eraill, mae NALC yn teimlo mai'r tebyg yw wedyn, pe bai her i hynny, y byddai'r llysoedd yn derbyn fod sefyllfa eithriadol yn galw am gamau eithriadol. Yn absenoldeb canllawiau gan y llywodraeth, byddem yn awgrymu na ddylid am y tro ond cymryd penderfyniadau o bell ar faterion gwirioneddol frys. Mewn sefyllfaoedd felly, dylai cynghorau lleol gadw cymaint o dystiolaeth ag y gallant i gyfiawnhau eu penderfyniadau, megis er enghraifft trwy ofyn i gynghorwyr gadarnhau eu pleidleisiau trwy e-bost fel y gallai'r Clerc gadw cofnod o'r penderfyniad.'*

  Lyn Cadwallader
  Prif Weithredwr